# JONES, WILLIAM (1764 - 1822), emynydd

**Enw:** William Jones
**Dyddiad geni:** 1764
**Dyddiad marw:** 1822
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** emynydd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Barddoniaeth
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

brodor o Gynwyd. Aeth i'r Bala 'n ifanc, ac yr oedd yn wehydd mewn ffatri a berthynai i Simon Lloyd; yr oedd yn flaenor gyda'r Methodistiaid Calfinaidd. Cyhoeddodd yn 1819 *Aberth Moliant, neu Ychydig Hymnau*; ymddengys un neu fwy o'r emynau hyn yn y rhan fwyaf o'n hemyniaduron, a William Jones piau'r pennill enwog iawn sy'n dechrau, ' Yr Iawn a dalwyd ar y groes.' Bu farw 2 Mai 1822, yn 58 oed.

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

## Ffynonellau


W. Williams, *Methodistiaeth Dwyrain Meirionydd* (1902), 1902, 573

J. Thickens, *Emynau a'u Hawduriaid* (1945), 1945


## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: William Jones (emynydd)

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q13132361


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu